# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock, J.Hale, J.Jones, R.Phillips, S.Renkes, S.Pursey, D.Whitelock a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, H.Jones, C.Furlow-Harris, C.Morris, S.Brennan, D.Griffiths, P.Hinder, M.Shaw, P.Walker, P.Dorrell, C.Plowman, J.Lewis (Sir Gaerfyrddin – Cofnod rhif 3 yn unig) a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Cynghorydd S Rahaman Parthed: Eitem 3 ar yr Agenda, Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe Am ei fod yn aelod o Gyd-bwyllgor

Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Y Cynghorydd S Freeguard Parthed: Eitem 3 ar yr Agenda, Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Am ei bod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Y Cynghorydd A Llewelyn Parthed: Eitem 3 ar yr Agenda, Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe Am ei fod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Rhaglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Darparwyd gwybodaeth i'r aelodau am achos busnes Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Adfywio, Sgiliau a Diwylliant yn bresennol i gymryd rhan yn y sgwrs.

Darparwyd cyflwyniad PowerPoint ar y prosiect Sgiliau a Thalent i aelodau a oedd yn darparu gwybodaeth bellach am yr achos busnes.

Cafwyd trafodaethau am bwysigrwydd cysylltedd cynhwysol mewn ardaloedd gwledig a'r cymoedd. Nodwyd y byddai'r prosiect Sgiliau a Thalent yn gweithio ochr yn ochr â'r prosiect Isadeiledd Digidol i sicrhau'r canlyniadau cysylltedd gorau posib. Byddai cysylltedd yn agwedd bwysig ar weithio yn y dyfodol ac yn darparu cymorth gyda gweithio gartref.

Trafodwyd cysylltiadau trafnidiaeth hefyd i sicrhau y gallai'r rheini ym mhob ardal gael mynediad at gyfleoedd gwaith. Rhoddwyd sicrwydd i aelodau y byddai prosiectau megis prosiect y ddaear yn darparu adnoddau.

Amlygodd aelodau Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Phwyllgor Craffu'r Cabinet fod y prosiect hwn yn brosiect rhanbarthol ac y byddai hefyd dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Nododd yr aelodau y byddai'r pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod heddiw yn cael eu nodi ac y byddai'r cynnydd yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Canmolodd aelodau'r adroddiad a manylder y prosiect. Amlygwyd ei bod yn hanfodol i'r rheini yr oedd ganddynt swyddi ar hyn o bryd fod yn ymwybodol o'r hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael iddynt fel y gallant uwchsgilio'u haddysg a'u sgiliau, gan ddarparu rhagor o gyfleoedd iddynt.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Prosiect Sinema Canolfan Celfyddydau Pontardawe

Rhoddwyd y diweddaraf i aelodau am gais am gymeradwyaeth i ddyrannu £600 mil yn rhagor ar gyfer datblygu sinema allanol newydd â 70 o seddi, ac adeiladau cysylltiedig yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Addysg, Sgiliau a Diwylliant yn bresennol i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Cafwyd trafodaethau am y costau ychwanegol. Gofynnwyd pam roedd angen yr arian ychwanegol a pham nad oedd wedi cael ei amcangyfrif yn y lle cyntaf. Esboniodd swyddogion fod angen arian ychwanegol ar gyfer y gwaith adeiladu oherwydd agweddau technegol ar yr adeilad, yn ogystal â dyluniadau mwy manwl er mwyn creu cyfleuster sy'n well yn weledol i gwsmeriaid.

Gofynnodd aelodau a fyddai'r adeilad wedi bod yn gymwys am y gronfa codi'r gwastad. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi ystyried y gronfa codi'r gwastad, fodd bynnag ar ôl rhoi ystyriaeth i'r prosiect, roedd yn anghymwys.

Trafododd aelodau'r effaith gadarnhaol y byddai'r adeilad yn ei chael ar y cymoedd ac roedd aelodau felly'n cefnogi'r argymhellion.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Adolygiad Archwilio Cymru o'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPMS)

I dderbyn gwybodaeth am ymateb y cyngor i'r 'cyfleoedd ar gyfer gwella' a nodwyd gan Archwilio Cymru yn dilyn yr adolygiad o'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPMS), fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Hysbyswyd yr aelodau fod y penderfyniad i roi'r penderfyniad ar waith wedi'i hepgor o adroddiad Adolygiad Archwilio Cymru o'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol o fewn papurau'r Cabinet. Nodwyd y dylai fod yr adroddiad wedi nodi bod y penderfyniad yn amodol ar y cyfnos 3 diwrnod galw i mewn.

Amlygodd aelodau fod nifer o feysydd o fewn y cynllun gweithredu yr oedd angen eu cwblhau, a gofynnwyd sut byddai'r cyngor yn mynd i'r afael â'r holl bwyntiau a godwyd. Sicrhaodd swyddogion yr aelodau fod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu ar y trywydd iawn a bod y mwyafrif ohonynt wedi'u cwblhau ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Nodwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn yr hydref.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Buddsoddiadau o Gronfeydd wrth Gefn 2021/22

Hysbyswyd aelodau am y cais i gymeradwyo buddsoddiadau ychwanegol mewn gweithgareddau gwasanaeth a ariannwyd o gronfeydd wrth gefn, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd aelodau sut byddai'r cymoedd yn elwa o'r buddsoddiadau hyn, fel a fanylwyd yn adroddiad effaith cymunedau'r cymoedd.Hysbyswyd yr aelodau y byddai cynllun y gronfa gymunedol yn caniatáu i bob aelod gael £10 mil i'w wario o fewn ei wardiau, a fyddai'n effaith gadarnhaol ar bob ardal o fewn Castell-nedd Port Talbot. Ynghyd â'r Rhaglen Adnewyddu Cerbydau, a fyddai hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r fwrdeistref sirol gyfan.

Nodwyd, oherwydd y pandemig, y bu llawer o bwysau a phroblemau adnoddau o fewn adran yr amgylchedd, a gofynnodd aelodau pa gefnogaeth oedd yn cael ei darparu yn y maes hwn. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o gynigion buddsoddiad ar gyfer adran yr amgylchedd, i helpu gyda'r pryderon hyn.

Holodd yr aelodau beth fyddai swm y cronfeydd wrth gefn a oedd yn weddill, pe bai'r gwariant yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Nodwyd y byddai oddeutu £51.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn weddill yn dilyn cymeradwyo'r argymhelliad. Nodwyd y byddai cyfle i ailystyried y cronfeydd wrth gefn yn yr hydref.

Cafwyd trafodaethau am Gronfa Codi'r Gwastad a'r potensial o wneud cais am yr uchafswm a oedd ar gael.

Trafododd yr aelodau'r Rhaglen Adnewyddu Cerbydau a holwyd a fyddai'r cerbydau'n rhai carbon isel. Nodwyd bod y cyngor yn bwriadu defnyddio cerbydau allyriadau isel a'i fod yn ystyried cerbydau trydan.

Cyfeiriodd aelodau at adroddiad grŵp tasg a gorffen y cymoedd a holwyd sut byddai'r adroddiad 'buddsoddiad a chronfeydd wrth gefn' yn adlewyrchu yn erbyn cynllun gweithredu'r cymoedd. Nodwyd bod buddsoddiad presennol yn cael ei reoli ochr yn ochr ag effeithiau pandemig COVID-19, fodd bynnag nodwyd bod angen rhoi ystyriaeth i'r hyn a oedd yn cael ei gyflwyno yn y cymoedd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

<u>Papur ar y cyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar Gwm Afan Uchaf</u>

Nodwyd bod dau fater ar wahân ond cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar breswylwyr Cwm Afan Uchaf dros y 5 mlynedd nesaf oherwydd materion gydag isadeiledd y briffordd ac asesiad parhaus o'r cyfleusterau i ddarparu gofal iechyd priodol o fewn yr ardal, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward Lleol, y Cyng. Scott Jones yn bresennol i rannu ei bryderon ar y materion adeileddol yng Nghwm Afan Uchaf. Nodwyd bod angen sicrhau bod gan gymunedau yn y cymoedd gysylltiadau cyfathrebu da.

Roedd angen sicrwydd ar aelodau y byddai Pont Wen Y Cymer yn aros lle y mae, ac y byddai ymdrechion yn y dyfodol yn parhau er mwyn sicrhau arian i'w chadw ar agor. Amlygodd swyddogion eu bod wedi rhoi mesurau ar waith er mwyn i'r bont aros ar agor. Byddai'r cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i olrhain Llywodraeth Cymru ar y

cyd i ddarparu cyllid i alluogi'r gwasanaethau gorau o fewn Cwm Afan Uchaf.

Gofynnwyd lle byddai'r adeilad gofal iechyd newydd yn cael ei leoli. Nodwyd mai’r Bwrdd Iechyd fyddai’n gwneud y penderfyniad hwn.

Amlygwyd bod angen i gynllunio yn y dyfodol gael ei ystyried ar gyfer cynnal a chadw adeiladau rhestredig eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru - ymateb drafft ymgynghori.

Hysbyswyd yr aelodau am y cais i gymeradwyo ymateb i'r ymgynghoriad ar "Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru Llywodraeth Cymru’ - fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau am yr angen i bwysleisio a sicrhau y cedwir at y cynllun gweithredu ym mhob ysgol. Darparodd swyddogion sicrwydd y byddai'r cynllun gweithredu'n cael i godi a'i ddilyn mewn ysgolion, am ei fod yn ofyniad.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Adfer, Ailosod, Adnewyddu

Diweddarwyd aelodau am yr ymateb parhaus i COVID-19 a'r cais i ddechrau ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus i ymgysylltu â phanel cyfoedion allanol i lywio ymagwedd y cyngor at gynllunio ar gyfer adferiad, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd y byddai rhagor o wybodaeth ar gael yn ystod y Panel Aelodau - Coronafeirws, ynghyd â seminar ychwanegol i'r Holl Aelodau.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

Cronfa Gymunedol yr Aelodau (protocol ar gyfer ail-lansio)

Diweddarwyd yr aelodau am ail-lansiad Cronfa Gymunedol yr Aelodau, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau am gyflwyniad y cynllun, dilyn amserlen fyrrach y cynllun a lleihad yn nifer y staff sy'n cefnogi'r cynllun. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r aelodau am y pryderon hyn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y cabinet.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**